Swyddfa Comisiynwyr
Gwyliadwriaeth

ADRODDIAD BLYNYDDOL

y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth

i'r Prif Weinidog a

Gweinidogion Albanaidd

ar gyfer **2004-2005**

HC 444
SE/2005/100

ADRODDIAD BLYNYDDOL

y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth

i'r Prif Weinidog a

Gweinidogion Albanaidd

ar gyfer **2004-2005**

Prif Gomisiynydd:
Y Gwir Anrhydeddus Syr Andrew Leggatt

Cyflwynwyd i'r Senedd gan y Prif Weinidog yn
unol ag adran 107 (3)
o Ddeddf yr Heddlu 1997

Gorchmynnid i gael ei argraffu gan
Dŷ'r Cyffredin
3ydd o Dachwedd 2005

Cyflwynwyd i Senedd yr Alban gan y
Gweinidogion Albanaidd
3ydd o Dachwedd 2005

HC444
SE/2005/100
Llundain: The Stationery Office £10.00

Cynnwys

Tudalen

1. Cyflwyniad **2**

2. Arolwg o'r flwyddyn **2**

3. Y gosodiadau statudol **4**

4. Trefniant buses SCG **5**

5. Materion arbennig yn ymwneud â'r SCG **6**

6. Ymyrraeth eiddo a goruchwyliaeth ymwthiol **8**

7. Goruchwyliaeth gyfeiriedig a CHIS **9**

8. Arolygiadau o asiantaethau gorfodaeth cyfraith **11**

9. Arolygiadau o Adrannau Llywodraethol a chyrff perthnasol **13**

10. Arolygiadau o awdurdodau lleol **13**

11. Arolygiadau o'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol **15**

12. Arolygiadau o gyrff cyhoeddus eraill **15**

13. Blaenoriaethau **15**

14. Datblygiadau technolegol **16**

15. Y flwyddyn i ddod **17**

Ychwanegiadau

Ych. A Awdurdodiadau a roddwyd o dan Ran III Deddf yr Heddlu 1997 ers ei gweithrediad **18**

Ych. B Dadansoddiad yn ôl trosedd o'r awdurdodiadau a roddwyd o dan Ran III Deddf yr Heddlu 1997 **19**

Ych. C Awdurdodiadau goruchwyliaeth ymwthiol a roddwyd o dan Ran II Deddf Rheoliad Pwerau Archwilio 2000 (RIPA 2000) a Deddf Rheoliad Pwerau Archwilio (yr Alban) 2000 (RIPA (S) 2000) ers eu gweithredu **20**

Ych. D Dadansoddiad yn ôl trosedd o'r awdurdodiadau a roddwyd o dan Ran II RIPA 2000 a RIP(S)A 2000 **21**

Ych. E Blaenoriaethau arolygiad **22**

Ych. F Gwariant SCG **24**

Ych. G Aelodau'r Swyddfa Comisiynwyr Goruchwyliaeth **25**

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005.

1.2 Fy nyletswydd i yw adolygu:

(a) gweithrediad swyddogaethau o dan Ran III Deddf yr Heddlu 1997 ('Deddf 1997');

(b) (heblaw mewn perthynas â Rhyngdoriad Cyfathrebiadau a'r Gwasanaethau Cudd-ymchwil) gweithrediad a pherfformiad y pwerau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd neu a osodwyd gan neu o dan Ran II Deddf Rheoliad Pwerau Archwilio 2000 ('RIPA'); a

(c) gweithrediad a pherfformiad y pwerau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd neu osodwyd gan neu o dan Ddeddf Rheoliad Pwerau Archwilio (yr Alban) 2000 ('RIP(S)A 2000').

1.3 Yn ymarferol mae hyn yn cynnwys pob gweithgaredd gudd (gan eithrio rhyngdoriad ffôn a llythyr) a gyflawnir gan yr awdurdodau cyhoeddus, gan eithrio'r gwasanaethau cudd-wybodaeth. Er bod Rhan III RIPA, sy'n ymwneud ag amgryptio, hefyd o fewn fy nghyfrifoldeb statudol i, nid yw eto mewn grym.

1.4 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynwyr Goruchwyliaeth ('y Comisiynwyr') i werthuso'r holl awdurdodau ar gyfer ymyrraeth eiddo a goruchwyliaeth ymwthiol naill ai cyn neu'n union wedi iddynt gael eu rhoi. Mae'n bosib apelio i'r Prif Gomisiynwr yn erbyn eu penderfyniadau.

1.5 Fel rhan o'm dyletswydd o dan y tair Deddf ('y Deddfau') i gyflwyno adroddiad yn flynyddol, rwyf yn parhau i baratoi adroddiad cyfunol.

2. Arolwg o'r flwyddyn

2.1 Mae Rhan III Deddf 1997 wedi bod mewn grym ers mwy na chwe blynedd bellach a Rhan II RIP(S)A ers bron i bum blynedd.

2.2 Mae nifer yr awdurdodiadau ymyrraeth eiddo a goruchwyliaeth ymwthiol (2,210 a 461 yn ôl eu trefn) wedi gostwng ychydig o'i gymharu â nifer yr awdurdodiadau ymyrraeth eiddo a hysbyswyd y flwyddyn gynt (2,483). Rydw i'n parhau'n fodlon fod yr awdurdodiadau hyn yn derbyn sylw manwl gan yr awdurdodau cyhoeddus. Nid yw hyn ond i'w ddisgwyl gan fod pob awdurdodiad yn cael ei arwyddo gan y Prif Swyddog ac yn cael ei lwybro trwy'r SCG cyn cael ei gymeradwyo neu ei archwilio gan Gomisiynydd Goruchwyliaeth.

2.3 Gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer yr awdurdodiadau cyfredol gan yr holl gyrff cyhoeddus ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig a Gwasanaethau Cudd-wybodaeth Ddynol Guddiedig ('CHIS') ar ddiwedd y flwyddyn (4,713 a 4,505 yn ôl eu trefn) o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf, tra bod y defnydd o CHIS yn parhau ar yr un lefel. Yn fy adroddiad ar gyfer 2002-2003 fe nodais fod y defnydd o'r pwerau hyn yn dal i achosi trafferthion. Er bod y sefyllfa'n yn gwella, mae rheolaeth goruchwyliaeth gyfeiriedig yn dal yn anwastad, gyda'r tueddiad i beidio â chydnabod ffynonellau CHIS a ddylai gael eu cydnabod fel ffynonellau CHIS yn parhau.

2.4 Ymysg y pynciau sy'n dal i achosi pryder i rai heddluoedd mae byrgleriaethau ailadroddus a dyfais, magwrfeydd trosedd ac awdurdod gweithredol. Mae'r term 'byrgleriaethau ailadroddus' yn cyfeirio at achosion lle bo goruchwyliaeth yn cael ei weithredu'n nhai'r rhai agored i niwed, yn aml henoed sydd wedi cael eu targedu gan ladron droeon; mae 'magwrfa drosedd' yn cyfeirio at fannau cyhoeddus arbennig lle bo swyddogion yr heddlu, ar sail profiad, yn cadw llygad fanwl ar hyn sy'n digwydd yno; ac mae 'awdurdod gweithredol' yn cyfeirio at y pwerau a ddefnyddir yn honedig oherwydd rhesymau disgyblaeth er mwyn goruchwylio swyddogion cyrff cyhoeddus arbennig. Yn fy Adroddiad Blynyddol y flwyddyn ddiwethaf fe fynegais y pryderon ynghylch y materion hynny.

2.5 Mae'r Swyddfa Gartref yn parhau i ohirio cyflwyniad Rhan III RIPA, sy'n caniatáu defnyddio offer i gael gafael ar neu i ddadgriptio gwybodaeth electroneg. Dywedir wrthyf fod y defnydd a wneir o ddiogelwch gwybodaeth ac amgryptio o dan adolygiaeth barhaol a bod y Rhan hon yn debyg o gael ei thrafod yn fuan mewn perthynas â'r Ddeddf Gwrth Derfysgaeth. Cyn y daw Rhan III i rym, bydd trafodaeth gyhoeddus yn sicr o gael ei chynnal ar y Côd Ymarfer drafft fydd yn rhaid ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

2.6 Yn ystod y flwyddyn, ar ran y Swyddfa Gartref, cynhaliodd Cymdeithas Swyddogion yr Heddlu ('ACPO') adolygiad o RIPA a deddfwriaeth gysylltiedig, a'r Codau Ymarfer. Gofynnwyd i'r tîm adolygu ystyried agweddau prosesu, rheolaeth a biwrocratiaeth, ac i argymell newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol, arweiniad a Chodau. Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol i'r Swyddfa Gartref ym Mai 2005. Tybiaf y bydd ymarferiad ymgynghori yn cael ei gynnal cyn y caiff ei gyflwyno i Weinidogion.

3. Y gosodiadau statudol

3.1 Mae amcanion a phrif osodiadau Rhan III Deddf 1997 a Rhan II RIPA a RIP(S)A sy'n berthnasol i arolygiaeth goruchwyliaeth gudd, ynghyd â rhestr o swyddogaethau statudol y Comisiynwyr, wedi eu hamlinellu yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2000-2001 ac ar wefan y SCG.

3.2 Daeth Gorchymyn Rheolaeth Pwerau Arolygiaeth (Ffynonellau Goruchwyliaeth Gyfeiriedig a Chudd-wybodaeth Ddynol) 2005 Rhif 1084 i rym ar 4 Mai 2005. Mae erthyglau 2 a 3 o'r Gorchymyn yn newid Atodlen 1 RIPA 2000 trwy ychwanegu tri awdurdod cyhoeddus newydd, sef Heddlu Porthladd Dover, Heddlu Porthladd Lerpwl a'r Swyddfa Cyfathrebiadau.

3.3 Yn ychwanegol rydw i'n falch o nodi fod Erthygl 2 yn diddymu Awdurdodau Iechyd a sefydlwyd o dan ran 8 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol 1977 o Ran II Atodlen 1 RIPA, gan ddiddymu hefyd eu pŵer statudol i gyflawni gweithgareddau cudd.

3.4 Rydw i'n parhau i boeni rhyw gymaint am Orchymyn Rheolaeth Pwerau Ymchwiliol (Ffynonellau Goruchwyliaeth Gyfeiriedig a Chudd-wybodaeth Ddynol) 2003 Rhif 3171 sy'n rhwystro pob awdurdod lleol (a llawer o awdurdodau eraill) rhag cyflawni goruchwyliaeth gyfeiriedig a rhag defnyddio neu gynnal CHIS heblaw bod angen gwneud hynny er mwyn rhwystro neu ganfod trosedd, neu er mwyn rhwystro anrhefn. Mae trafodaethau gydag awdurdodau cyhoeddus yn ystod archwiliadau yn awgrymu, gan nad ydynt bellach yn cael awdurdodi gweithgareddau cudd er budd diogelwch y cyhoedd na chwaith er budd iechyd cyhoeddus, ni all rai ohonynt bellach gyflawni rhai gweithgareddau defnyddiol yr oeddent yn arfer eu cyflawni.

3.5 Yn dilyn derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005, creodd y Comisiynwyr ar gyfer y Ddeddf Cyllid a Thollau 2005 adran lywodraethol di-weinidogaethol o'r enw Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ('HMRC'), a gymerodd le Tollau Thramor a Chartref Ei Mawrhydi ('HMCE') a Chyllid y Wlad. Mae Cyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Troseddol yn y broses o gael ei ffurfio, ac wedi ei ffurfio bydd yn cynnwys (o HMCE) Ymchwiliad Gorfodaeth Cyfraith ac (o Gyllid y Wlad) y Swyddfa Gydsyniad. Ar hyn o bryd ni fydd hi'n bosibl

defnyddio pwerau blaenorol HMCE ar gyfer pwrpasau Cyllid blaenorol, ac i'r gwrthwyneb. Nes i drefniadau newydd gael ei gwneud bydd pob awdurdodiad ar gyfer ymyrraeth eiddo a goruchwyliaeth ymwthiol yn cael ei roi gan gyn-swyddogion HMCE. Rydw i wedi cytuno i ohirio arolygiaeth y gyfundrefn newydd er mwyn galluogi staff HMRC a'r rheolwyr i ymgyfarwyddo â'u swyddogaethau newydd.

3.6 Daeth Deddf Trosedd Ddifrifol wedi ei Threfnu a'r Heddlu i rym ar 7 Ebrill 2005. Mae'r ddeddf yn sefydlu'r Asiantaeth Trosedd Ddifrifol wedi ei Threfnu ('SOCA'), sydd i gymryd lle'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Troseddol Cenedlaethol ('NCIS'), Sgwad Drosedd Genedlaethol ('NCS'), a'r rhannau sydd ar ôl o HMCE a Chyllid y Wlad sy'n ymladd delio mewn cyffuriau a golchi arian ac sydd heb eu trosglwyddo i'r HMRC. Bwriedir i SOCA gychwyn ar ei waith ar 1 Ebrill 2006. Erbyn hynny fe fydd y gyfundrefn newydd wedi ei sefydlu a chaiff ei gweithredu ar y cyd gyda'r asiantaethau sy'n bodoli'n barod. Gan y tybiaf y bydd disgwyl imi adolygu gweithgareddau SOCA fel rwyf yn adolygu ei rannau cydrannol ar hyn o bryd, rwyf wrthi'n trefnu i gyfarfod prif swyddogion yr Asiantaeth newydd er mwyn trafod eu perthynas ddyfodol gyda'r SCG a'r dynesiad newydd i arolygiaeth fydd ei angen.

4. Trefniant busnes y SCG

4.1 Fel y soniais yn barod, bwriad y Deddfau yw gwneud y Comisiynwyr yn gyfrifol am arolygiaeth awdurdodiadau, a'm gwneud i yn gyfrifol am adolygu'r mwyafrif o weithgareddau cudd a gyflawnir gan y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus. Caiff fy nyletswydd i adolygu ei chyflawni trwy gyfrwng arolygiadau gan Arolygwyr o asiantaethau gorfodaeth cyfraith, ynghyd ag ymweliadau dilynol gan y Comisiynwyr neu gennyf i, a chan arolygiadau o awdurdodau cyhoeddus eraill gan y Comisiynwyr neu Arolygwyr Cynorthwyol (neu'r ddau).

4.2 Yn ystod y flwyddyn cafodd pob heddlu yn y Deyrnas Unedig eu harolygu a'u hymweld yn y modd hwn, ynghyd â'r NCS, HMCE, NCIS, yr Asiantaeth Gorfodaeth Cyffuriau Albanaidd ('SDEA'), Cyllid y Wlad, yr Adran Waith a Phensiynau a Gwasanaeth Carchar EM.

4.3 Mae'r ymweliadau hyn yn galluogi Comisiynwyr i weld pa welliant a welwyd o ran gweithredu argymhellion yr Arolygwyr. Maent hefyd yn gyfle i drafod y materion perthnasol sydd yn fy marn i o gymorth i'r Prif Swyddogion a'r Comisiynwyr.

4.4 Yn dilyn adolygiad o'r gwaith a ddyrannwyd, mae Comisiynwyr Cynorthwyol bellach yn gyfrifol am arolygu'r rhan fwyaf o adrannau ac asiantaethau llywodraethol ynghyd ag awdurdodau lleol. Mae arolygwyr yn parhau i arolygu asiantaethau gorfodaeth cyfraith ac awdurdodau lleol. Mae rhai o'r awdurdodau cyhoeddus pwysicach (ar wahân i'r asiantaethau gorfodaeth cyfraith) yn cael eu harolygu ar y cyd gan Gomisiynwyr Cynorthwyol ac Arolygwyr.

4.5 Mae cyfarfodydd y Comisiynwyr, sydd hefyd yn cael eu mynychu gan y Comisiynwyr a'r Arolygwyr Cynorthwyol, fel arfer yn cael eu cynnal tair gwaith y flwyddyn. Yn y flwyddyn adolygu bresennol cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r fath. Maent yn werthfawr oherwydd eu bod yn caniatáu i'r Comisiynwyr gymryd penderfyniadau cyfunol ynglŷn â materion yn ymwneud â dehongliad. Mae materion sy'n deillio o arolygiadau a gynhaliwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r Arolygwyr hefyd yn cael eu trafod er mwyn sicrhau dynesiad cyson. Yn achlysurol cyhoeddir canllawiau er mwyn hysbysu awdurdodau cyhoeddus o farnau'r comisiynwyr ar faterion dehongli ag ymarferiad.

4.6 Mae aelodau'r SCG hefyd yn mynychu cyfarfodydd gyda chyrff eraill er mwyn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i wella eu dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a chydsyniad gydag ef. Parhaodd arolygwyr i annerch llawer o ddigwyddiadau hyfforddiant cenedlaethol, gydag un arolygwr bellach yn gyflwynydd rheolaidd ar gwrs swyddogion awdurdodi'r NSLEC. Mae Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd wedi annerch seminarau a chynadleddau priodol.

4.7 Trefnwyd a chynhaliwyd pedwar cyfarfod ymgynghorol gorfodaeth cyfraith ac un cyfarfod grŵp ymgynghorol gan Ysgrifennydd yr SCG yn ystod y flwyddyn. Maent yn gyfarfodydd adeiladol sy'n cael eu mynychu gan gynrychiolwyr rhanbarthol o'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol. Mae materion yn ymwneud â dehongliad ac ymarferiad yn cael eu trosglwyddo i sylw'r Comisiynwyr.

4.8 Crëwyd gwefan y SCG ym Mehefin 2002 er mwyn hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus a chynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Fe ddiweddarwyd y wefan ym Mehefin 2003 ac unwaith eto yn Ebrill 2004, ac mae bellach yn cynnwys copïau o fy Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2002-2003 ac wedi hynny. Mae fersiwn Gymraeg o'r wefan hefyd wedi ei chynhyrchu. Mae rhan newydd yn cael ei chreu ar hyn o bryd fydd yn rhestru cyfraith achos perthnasol sy'n gysylltiedig â Rhan II RIPA, RIP(S)A a Rhan III Deddf 1997. Ymwelwyd â'r wefan 13,552 gwaith yn ystod y flwyddyn, gyda 12,025 ohonynt gan ymwelwyr gwahanol. Mae'r dudalen gartref a'r rhan Cyngor ac Arweiniad yn parhau i fod y rhannau mwyaf poblogaidd, gyda'r diwethaf yn derbyn y nifer fwyaf o ymwelwyr ym Mehefin 2004, Ionawr 2005 a Mawrth 2005. Mae'r adborth o awdurdodau lleol ac ymwelwyr eraill yn parhau'n werthfawrogol.

5. Materion arbennig yn ymwneud â'r SCG

Apeliadau gan swyddogion awdurdodi

5.1 Bu un apêl gan swyddog awdurdodi yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Wrth awdurdodi awdurdodiad ar gyfer defnyddio dyfeisiau gwrando cudd mewn cell, gosododd Comisiynwr yr amod na ddylent gael eu defnyddio nes i gyfweliadau'r ddau unigolyn ddod i ben. Caniateais yr apêl gan ddileu'r amod gwreiddiol a chynnwys yn ei le: "ni ddylai'r dyfeisiau gwrando gael eu defnyddio nes bod y ddau unigolyn wedi cael eu cyfweld ac ni lwyddwyd i gael y wybodaeth ganddynt a gredir sydd ei angen ac y bwriedir ei gael trwy ddefnyddio'r dyfeisiau hyn." Fel y gellir gweld, roedd yn bwynt cul iawn ac yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Anghysondebau adrodd

5.2 Dyma'r flwyddyn gyntaf y bu imi ofyn i'r Prif Swyddogion roi gwybod imi o'r holl ymgyrchoedd cudd lle na chydymffurfiwyd ag anghenion statudol, a hefyd o achosion sy'n methu yn y Llys oherwydd diffygion mewn goruchwyliaeth gudd. Mae'r angen i'm hysbysu yn sicrhau fod camgymeriadau a chamweddau yn dod i'm sylw cyn gynted ag y maent yn digwydd, gan olygu y gallant gael eu harchwilio, lle bo angen, gan un o fy Arolygwyr ar unwaith neu yn ystod yr arolygiad nesaf o'r asiantaeth honno.

5.3 Mae'r mwyafrif o'r toriadau RIPA a ddaw i'm sylw yn deillio o'r ffaith nad yw'r mwyafrif o'r rhai sy'n gweithredu gweithdrefnau cudd wedi cael eu hysbysu gan eu rheolwyr o dermau'r awdurdodiadau. Gall hyn arwain at ymyrraeth eiddo a goruchwyliaeth ymwthiol anghyfreithiol, ac mae'n cynrychioli methiant sylfaenol ar ran y rheolwyr. Mae asiantaethau gorfodaeth cyfraith hefyd i fod i roi gwybod imi o'r holl doriadau sy'n ymwneud â CHIS a goruchwyliaeth gyfeiriedig, ond nid ydynt yn gwneud hyn bob amser. Yn y dyfodol byddaf yn gwneud sylwadau negyddol ynglŷn â thoriadau a ddarganfyddir gan fy Arolygwyr na ddaeth i'm sylw.

Riportio i'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion Albanaidd

5.4 Ni fu angen imi riportio i'r Prif Weinidog yn ystod y flwyddyn ar unrhyw fater yn ymwneud â'r materion yr wyf yn ymwneud â hwy. Riportiais i'r Gweinidogion Albanaidd fod un heddlu wedi awdurdodi gweithgaredd droeon heb sylweddoli ei fod wedi ei gynnwys yn Rhan III Deddf 1997, ond ni weithredwyd dim un o'r awdurdodiadau, ac felly ni ddigwyddodd unrhyw weithgaredd anawrdudodedig mewn gwirionedd.

Perthynas gyda Chomisiynwyr eraill

5.5 Yn ddiweddar mae'r Comisiynwr Rhyngdoriad Cyfathrebiadau wedi sefydlu arolygiaeth. Tasg yr arolygiaeth yw arolygu'r holl geisiadau am wybodaeth gyfathrebu gan yr awdurdodau cyhoeddus o dan Ran 1 RIPA. Bydd creu corff arolygu arall heb amheuaeth yn cynyddu'r byrdwn ar y rhai a arolygir. Mae'r SCG a Swyddfa'r Comisiynwr Rhyngdoriad Cyfathrebiadau ('IOCCO') wedi cytuno i sicrhau nad yw eu cynlluniau arolygu yn gorgyffwrdd.

Newidiadau staff

5.6 Mae'r SCG yn ffodus y bydd eu safonau yn dal i gael eu cynnal gan y ddau Gomisiynydd newydd, sef yr Arglwydd Coulsfield a Syr Liam McCollum, sydd wedi cymryd lle'r Arglwydd Bonomy (ar secondiad i'r Llys Trosedd Rhyngwladol yn yr Hague) a Syr John MacDermott (ymddeoliad). Gwerthfawrogwn yn fawr y cyfraniad hanfodol a wnaeth y ddau o ran sefydlu a datblygu'r SCG.

5.7 Trist iawn yw gorfod nodi marwolaeth Tony Williams, fy Mhrif Arolygwr, a aeth yn ddifrifol wael ar ddechrau'r flwyddyn gan huno tuag at ei diwedd. Cyfrannodd tuag at gynllunio'r Arolygiaeth SCG a thuag at ei heffeithlonrwydd.

Roedd cymwysterau unigryw ganddo ar gyfer hynny gan iddo wasanaethu fel is-gyrnol yn y Corfflu Cudd-ymchwil yng Ngogledd Iwerddon, ac wedi hynny fel aelod o'r Awdurdod Cwynion Heddlu dros gyfnod o saith mlynedd. Roedd ganddo feddwl annibynnol, yn ddoeth ei farn, gonestrwydd heb ei ail, a gallu greddfol bron i adnabod rhesymau am berfformiad sâl. Gan fod ei feirniadaeth bob amser yn ddiplomyddol a'i gyngor yn ddoeth, roedd yn destun edmygedd gan lawer, nid yn unig gan ei gyfeillion a'i gyd-weithwyr ond hefyd gan y rhai a gafodd eu harolygu ganddo. Mae'r SCG yn hynod ddiolchgar i Stephen James, sydd, yn dilyn ei ymddeoliad fel Comander yng Ngwasanaeth Heddlu Llundain, wedi cytuno i lenwi'r bwlch nes y bydd dilynydd pwrpasol wedi ei benodi yn ystod 2006.

Cydnabyddiaeth

5.8 Dylid talu teyrnged arbennig felly i'r Arolygwyr a fu heb Brif Arolygwr am ran helaeth o'r flwyddyn. Golygodd hyn y bu'n rhaid iddynt gymryd ei le bob yn ail, gan ychwanegu at fyrdwn yr arolygiadau.

5.9 Ni fyddai'r un adolygiad o'r flwyddyn yn gyflawn heb gydnabyddiaeth gyhoeddus gennyf i o'r gwaith cydwybodol a gyflawnwyd nid yn unig gan yr Arolygwyr ond hefyd gan y Comisiynwyr a'r Comisiynwyr Cynorthwyol. Mae eu dyletswyddau yn drwm a phob amser o ddefnydd, ond yn aml nid ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol. Mae staff y SCG yn darparu cymorth anhepgor o ran eu holl weithgareddau.

6. Ymyrraeth eiddo a goruchwyliaeth ymwthiol

6.1 Mae pwerau a dyletswyddau'r Comisiynwyr o ran archwilio a phenderfynu pa un ai y dylid awdurdodi awdurdodiadau o dan Ddeddf 1997 ac o dan RIPA neu RIP(S)A yntau peidio, yn cael eu hesbonio yn fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2000-2001 ac maent wedi eu cynnwys ar wefan y SCG.

Ystadegau

6.2 Mae ystadegau ar gyfer awdurdodiadau ymyrraeth eiddo a goruchwyliaeth ymwthiol ar gyfer y blynyddoedd diwethaf wedi eu cynnwys yn y tablau yn Ychwanegiadau A a B. Fel yn y gorffennol nid wyf wedi nodi'r rhifau unigol ar gyfer pob asiantaeth gan y byddai hyn yn rhoi argraff o'u hymarferion gweithredol a allai fod y gamarweiniol. Mae'r mwyafrif o awdurdodiadau yn dal o achos troseddau yn ymwneud â delio mewn cyffuriau, llofrudd a therfysgaeth.

Ymyrraeth eiddo

6.3 Gan eithrio adnewyddiadau, arwyddwyd 2,210 awdurdodiad ymyrraeth eiddo yn ystod 2004-2005, sef rhif ychydig yn is na'r blynyddoedd blaenorol (2,482 y flwyddyn ddiwethaf). Adnewyddwyd 493 awdurdodiad yn ystod 2004-2005, o'i gymharu â 522 y flwyddyn flaenorol. Nid yw'r ffigyrau hyn ond yn rhoi syniad o faint y gwaith a gyflawnir gan y SCG, gan fod rhai adnewyddiadau yn cyfeirio at yr un ymgyrch.

6.4 Bu 212 achos lle y defnyddiwyd gosodiadau brys o'r math a ganiateir gan ddeddfwriaeth. Bu tri achos hefyd o awdurdodiadau yn cael eu harwyddo'n gywir yn absenoldeb y Prif Arolygwr. Yn y flwyddyn flaenorol roedd y ffigyrau hyn yn 279 a 3. Mae'n ymddangos mai'r rheswm am y gostyngiad yn nifer yr achosion brys yw gwell dealltwriaeth gan heddluoedd o ba bryd y dylid defnyddio'r gosodiadau brys.

6.5 Diddymwyd chwe awdurdodiad, sef ffigwr tebyg i'r flwyddyn ddiwethaf (5). Methodd yr holl achosion hyn y prawf angenrheidrwydd. Yn achos chwe achos nid oedd modd eu diddymu na dileu'r awdurdodiadau gan nad oeddent wedi eu cynnwys yn y Ddeddf berthnasol: roeddent yn annilys.

Gwyliadwriaeth ymwthiol

6.6 Arwyddwyd 461 awdurdod gwyliadwriaeth ymwthiol yn ystod 2004-2005, sef cynnydd bychan o'i gymharu â 447 y flwyddyn flaenorol. Mae nifer yr awdurdodiadau a adnewyddir, pa fodd bynnag, heb newid rhyw lawer: arwyddwyd 87 adnewyddiad y flwyddyn hon o'i gymharu â 92 y flwyddyn gynt.

6.7 Defnyddiwyd gosodiadau brys mewn 30 awdurdod ac ni fu'n rhaid arwyddo'r un ohonynt yn absenoldeb y Prif Swyddog. Mae hyn yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf (30 awdurdodiad, gyda thri yn cael eu harwyddo gan rywun gwahanol i'r Prif Swyddog)

7. Goruchwyliaeth gyfeiriedig a CHIS

7.1 Cafodd ystadegau ar gyfer y defnydd o oruchwyliaeth gyfeiriedig a CHIS eu darparu gan yr holl asiantaethau gorfodaeth cyfraith a'r mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus eraill.

7.2 Arwyddodd asiantaethau gorfodaeth cyfraith 25,518 awdurdodiad goruchwyliaeth gyfeiriedig yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2004 a 31 Mawrth 2005, gyda 3,653 yn dal yn ddilys ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn cymharu gyda 26,986 a 4,713 y flwyddyn flaenorol.

7.3 Arwyddwyd 6,110 awdurdodiad goruchwyliaeth gyfeiriedig ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill yn ystod y flwyddyn, gyda 1,060 yn dal yn ddilys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu gyda 6,398 a 1,110 ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.

7.4 Recriwtiwyd 4,980 CHIS gan yr asiantaethau gorfodaeth cyfraith yn ystod y flwyddyn, dilëwyd 4,952 ac roedd 4,452 yn dal yn ddilys ar ddiwedd Mawrth 2005. Roedd y ffigyrau ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn 5,907, 5,544 a 4,865, gan gynrychioli gostyngiad sylweddol yn y defnydd o adnoddau o'r fath. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys cynnydd mewn ymgyrchoedd tymor hir, symudiad tuag at atebion sail-cymuned aml-asiantaeth, a newid i un o'r systemau cyfrifiadurol a ddefnyddir gan rai asiantaethau gorfodaeth cyfraith, gyda chysylltiadau cyfrinachol bellach ddim yn cael eu cyfri fel CHIS.

7.5 Yn ystod yr un cyfnod recriwtiwyd 308 CHIS gan awdurdodau lleol, ond dilëwyd 204 yn ystod y flwyddyn, gyda 53 yn dal yn ddilys ar ddiwedd Mawrth 2005. Mae hyn yn cymharu gyda 273, 215, a 134 y flwyddyn ddiwethaf.

7.6 Archwilir materion yn ymwneud â goruchwyliaeth uniongyrchol a CHIS yn fanwl yn ystod arolygiadau o awdurdodau cyhoeddus. Cant eu trafod hefyd pan fo'r asiantaethau hyn yn cyfarfod â'r Ysgrifennydd a'r Prif Arolygwr Goruchwyliaeth, a phan gyflwynir problemau dehongliad a phroblemau pwysig eraill i'r Comisiynwyr am arweiniad.

7.7 Y flwyddyn hon arolygodd y SCG hefyd yr asiantaethau gorfodaeth cyfraith hynny sy'n defnyddio CHIS dramor fel rhan o'u hymdrechion gorfodaeth cyfraith y DU. Rydw i wedi gyrru nifer o argymhellion i'r asiantaethau hyn er mwyn ceisio gwella'r ffordd y caiff eu gweithgareddau cudd tramor eu cyflawni. Pan ddaw'r Asiantaeth Trosedd Ddifrifol ac Wedi ei Threfnu yn gyfrifol am weithgareddau o'r fath, sef yn Ebrill 2006, byddaf yn ceisio sicrhau fod y sgiliau, technegau a'r perthnasau gyda chyfundrefnau tramor yn adlewyrchu safonau uchel y DU. Bydd hyn yn hanfodol pan fo tystiolaeth sy'n deillio o weithgaredd cudd tramor yn cael ei nodi mewn llysoedd domestig.

8. Arolygiadau o asiantaethau gorfodaeth cyfraith

8.1 Defnyddiaf y term 'asiantaethau gorfodaeth cyfraith' i gyfeirio at y cyrff hynny sydd â'r awdurdod i ddefnyddio goruchwyliaeth ymwthiol. Y flwyddyn hon cynhaliwyd 68 arolygiad o asiantaethau gorfodaeth cyfraith, gan gynnwys 44 heddlu yng Nghymru a Lloegr, wyth heddlu yn yr Alban, Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, y Sgwad Drosedd Genedlaethol, y Gwasanaeth Cenedlaethol Gwybodaeth Gudd Droseddol, Tollau Tramor a Chartref EM, yr Asiantaeth Orfodaeth Cyffuriau Albanaidd, Lluoedd EM yng Ngogledd Iwerddon, Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Cangen Reolaeth y Llynges Frenhinol, yr Heddlu Milwrol Brenhinol, yr Heddlu Awyr Brenhinol, Heddlu Awdurdod Ynni Atomig y DU, a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

8.2 Unwaith eto cynhwyswyd yr Asiantaeth Gorfodaeth Cyffuriau Albanaidd oherwydd ei pherthynas agos gyda lluoedd yn yr Alban. Er nad oes ganddi'r awdurdod ar hyn o bryd i awdurdodi goruchwyliaeth ymwthiol a chyfeiriedig, nodaf fod mesur i'w gyflwyno yn fuan o flaen Senedd yr Alban fydd yn caniatáu i Gyfarwyddwr yr SDEA awdurdodi goruchwyliaeth ymwthiol a chyfeiriedig. Rwyf wedi bod yn hyrwyddo caniatáu awdurdod o'r fath ers cryn amser.

8.3 Fe'm bodlonwyd gyda'r safonau a ddarganfuwyd ym mhob asiantaeth orfodaeth cyfraith. Er bod camgymeriadau yn dal i ddigwydd, ac er i'r safonau o fewn rhai asiantaethau gorfodaeth cyfraith ostwng o'u cymharu â'r safonau uwch blaenorol, maent oll ar hyn o bryd yn gweithredu'r ddeddfwriaeth i safon dderbyniol. Yn naturiol byddaf yn cadw llygad ar y sefyllfa, yn arbennig gan fod staff allweddol yn newid yn aml. Gall dim ond colli un rheolwr llwyddiannus, wedi ei gyfuno gyda hyfforddiant ag arolygiaeth sâl o fewn awdurdod cyhoeddus, arwain at ostyngiad sydyn mewn safonau.

8.4 Mae'r diffyg byrder gan asiantaethau gorfodaeth cyfraith ac awdurdodau cyhoeddus eraill wrth baratoi ceisiadau am awdurdodiadau yn dal i achos pryder imi. Mae ymgeiswyr yn aml yn ailadrodd manylion llawn eu hachosion yn hytrach na chyfyngu eu hunain i'r ffeithiau sy'n gefn i'w ceisiadau. Golyga hyn fod arolygwyr yn gwastraffu llawer o amser ac mae hyn yn adlewyrchu'n sâl ar hyfforddiant. Mae hefyd yn awgrymu diffyg arolygiaeth effeithiol.

8.5 Os caiff ei gynnwys yng nghwmpas fy adolygiad, bydd yr SCG hefyd yn arolygu'r Gyfarwyddiaeth Arolygiaethau Troseddol sydd newydd ei sefydlu oddi mewn i'r Adran Lywodraethol di-weinidogaethol sydd bellach yn cael ei hadnabod fel HMRC. Soniais am yr adran hon yn gynharach. Gan fod y Gyfarwyddiaeth hon yn dod ag Arolygiaeth Gorfodaeth Cyfraith o HMCE a'r Swyddfa Gydsyniad Arbennig o Gyllid y Wlad at ei gilydd, mae'n asiantaeth gorfodaeth cyfraith bwysig a mawr.

8.6 Rwy'n parhau i bwysleisio'r pwynt a wnaethpwyd mewn adroddiadau blaenorol, sef, er fy mod weithiau yn awgrymu i brif swyddogion beth ddylai gael ei wneud, mae fyny iddynt hwy benderfynu pa un yw'r ffordd orau o gyflawni hynny, yn arbennig pan fo'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig. Rydw i'n disgwyl, pa fodd bynnag, esboniad os na chaiff awgrym ei weithredu.

Ymarfer da a drwg

8.7 Yn Ionawr 2005 cyhoeddwyd rhestr fanwl arall o bwyntiau ymarfer drwg a da a nodwyd yn ystod arolygiadau o asiantaethau gorfodaeth cyfraith. Ymysg yr ymarferion da a nodwyd oedd sefydlu swyddfeydd awdurdodau canolog wedi eu staffio gydag arbenigwyr pynciau, polisïau hyfforddiant cadarn, defnydd da o ddidolwyr ar gyfer archwilio awdurdodiadau cyn iddynt gael eu cyflwyno i swyddogion awdurdodi, sefydlu sicrwydd safon effeithiol, cydnabyddiaeth gan swyddogion a benodwyd i gyflawni ymgyrchoedd cudd eu bod wedi gweld a deall termau'r awdurdodiadau, cysondeb ynglŷn â pha un ai y dylai awdurdodiadau gael eu hymofyn yntau peidio, a gwefannau a newyddlenni llawn dychymyg.

8.8 Ymysg y pwyntiau ymarferion drwg a nodwyd roedd ceisiadau ac awdurdodiadau heb fod yn ddigon penodol (ac yn fwyaf arbennig, ceisiadau goruchwyliaeth wedi eu cyfeirio'n sâl), yn mynd tu hwnt i amodau awdurdodiadau, diffyg argaeledd codau ymarfer i ymarferwyr, a hyfforddiant ac addysg RIPA annigonol.

8.9 Mae'r eitemau ymarfer da a drwg a restrir yn deillio o adroddiadau ynglŷn ag arolygiaeth oddeutu 60 asiantaeth gorfodaeth cyfraith. Mae'r llyfryn Gweithdrefnau a Chanllaw'r SCG bellach yn cael ei ddefnyddio gan lawer. Mae'n darparu rhestr wirio sy'n galluogi adrannau perthnasol pob awdurdod i ystyried eu hymarferion eu hunain.

Goruchwyliaeth gyfeiriedig

8.10 Yn ystod y flwyddyn ni welwyd y gwelliant yn yr awdurdodiadau ar gyfer goruchwyliaeth gyfeiriedig yr oeddwn wedi gobeithio ei weld, er gwaethaf yr hyfforddiant a drefnwyd gan y mwyafrif o awdurdodau cyhoeddus. Yn y flwyddyn i ddod rwyf yn bwriadu edrych yn fanwl ar allu awdurdodau cyhoeddus i awdurdodi goruchwyliaeth gyfeiriedig. Rhaid i'r awdurdodiadau hyn gael eu llenwi'n synhwyrol heb ddefnyddio torri-a-gludo.

9. Arolygiadau o Adrannau Llywodraethol a chyrff perthnasol

9.1 Cyflawnwyd deunaw arolygiad o Adrannau Llywodraethol a chyrff perthnasol. Dyma'r rhestr:

- BBC (Trwyddedu Teledu)
- Comisiwn Elusen
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Gwasanaethau Tân ac Achub (4)
- Bwrdd Hapchwarae
- Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaeth Carchar EM (Cymru a Lloegr)
- Y Swyddfa Gartref - Gwasanaeth Mewnfudiad y DU
- Cyllid y Wlad
- Gwasanaeth Carchar Gogledd Iwerddon
- Y Post Brenhinol CCC
- Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
- Asiantaeth Taliadau Gwledig
- Asiantaeth Gwarchod Pysgodfeydd yr Alban
- Adran Weithredol Amgylchedd a Materion Gwledig yr Alban.

9.2 Yn ystod y flwyddyn fe ymgymerodd y Comisiynwyr Cynorthwyol â'r cyfrifoldeb dros archwilio asiantaethau ac Adrannau'r Llywodraeth. Mae'r achosion mwy cymhleth yn dal i gael eu harchwilio ar y cyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r Arolygwyr. Mae'r dynesiad hwn wedi dod â buddion sylweddol ac wedi ei groesawu gan y rhai a arolygwyd. Rwyf felly yn bwriadu parhau i'w ddefnyddio.

9.3 Mae rhai o'r grŵp Adrannau Llywodraethol cymysgryw hwn yn gwneud defnydd sylweddol o arolygiaeth gyfeiriedig a phwerau CHIS. Mae'r mwyafrif o'r gwelliannau a gyfeiriwyd atynt mewn adroddiadau blynyddol eraill wedi eu cynnal. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos argymhellion a weithredwyd yn dilyn arolygiadau SCG.

10. Arolygiadau o awdurdodau lleol

10.1 Y flwyddyn hon cyflawnwyd 111 arolygiad. Mae awdurdodau lleol yn cael eu harolygu yn llai aml nag asiantaethau gorfodaeth cyfraith am y rheswm amlwg eu bod yn defnyddio eu pwerau yn llawer llai, ac nid oes ganddynt yr hawl i arwyddo awdurdodiadau ar gyfer ymyrraeth eiddo na goruchwyliaeth ymwthiol.

10.2 O'r 441 awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr a arolygwyd, mae 63 wedi eu harolygu o leiaf ddwywaith. Mae'r safon cydsyniad gyda'r gosodiadau statudol wedi gwella'n sylweddol ers i'r Deddfau newydd ddod i rym.

Mae arolygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos fod llawer o awdurdodau lleol â pholisïau cadarn; ac mae llawer hefyd wedi cyflwyno'r cyfundrefnau hyfforddiant angenrheidiol.

10.3 Os caiff pryderon penodedig eu nodi, yna caiff arolygiadau ychwanegol eu cynnal. Ni fu raid imi ond gorchymyn tri arolygiad pellach o awdurdodau lleol y flwyddyn hon.

10.4 Mae Awdurdodau Lleol yn parhau i wneud defnydd ysgafn ond rheolaidd o oruchwyliaeth gudd. Cynhaliwyd arolygiadau yn unol â'r cynllun yr wyf unwaith eto wedi ei amlinellu (yn Ychwanegiad E). Dyma'r mathau o awdurdodau a arolygwyd:

6 Cyngor Sir
6 Cyngor Dosbarth
27 Bwrdeistref Llundain
21 Cyngor Metropolitan
29 Cyngor Unedol
9 Awdurdod Lleol Cymreig
13 Awdurdod Lleol Albanaidd.

10.5 Dangosodd yr arolygiadau fod dealltwriaeth gynyddol o RIPA o fewn yr awdurdodau cyhoeddus ynghyd â llawer o enghreifftiau o ymarfer da. Defnyddir gweithgaredd cudd yn fwyaf aml gan adrannau sy'n delio gyda safonau masnachol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chan y rhai sy'n gweinyddu budd-daliadau. Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu polisïau a phrotocolau ysgrifenedig sy'n gadarn ac yn darparu canllaw perthnasol i'w staff, ond mae llawer ohonynt yn rhy amleiriog, gan arwain at gwynion o "fiwrocratiaeth". Mae'r berthynas rhwng y mwyafrif o awdurdodau lleol a'u gwrthran heddlu yn gydseiniol, rhywbeth sy'n hanfodol o safbwynt gweithrediad.

10.6 Nid yw'r mwyafrif o awdurdodau yn defnyddio cyfrifiaduron i gofnodi a chadw awdurdodiadau. Ar y llaw arall, gall cofnodion llawysgrif gael eu colli ac, os digwydd hynny, mae'r ddyletswydd i'w cadw'n cael ei chyfaddawdu. Er y gall fod yn ddrud i newid i system gyfrifiadurol, yn aml mae'n bosib defnyddio rhaglenni sydd mewn defnydd yn barod gan awdurdodau eraill.

10.7 Rhaid i awdurdodau lleol fod yn ymwybodol y gall uwch reolwyr adrannau sy'n gwneud defnydd isel o RIPA fethu ac adnabod anghenion gweithredol o ganlyniad i ddiffyg hyfforddiant. Mae'n faes lle mae profiad yn aml yn cyfri mwy na gradd. Mae angen diweddaru a choethi llawer o hyfforddiant RIPA. Er enghraifft, mae llawer o awdurdodau cyhoeddus heb ddeall y syniad o 'gymesuroldeb' yn iawn. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n awdurdodi CHIS, ond mae rhai awdurdodau mwy yn dechrau eu defnyddio.

10.8 Mae Ysgrifennydd y SCG yn trefnu Grŵp Ymgynghorol Awdurdodau Lleol, yn debyg iawn i'r un a sefydlwyd ar gyfer asiantaethau gorfodaeth cyfraith. Mae'r grŵp yn ystyried materion yn ymwneud ag ymarfer a dehongliad. Rydw i'n falch ei fod wedi cyfarfod eto yn

ystod y flwyddyn a'i fod wedi cytuno i gynnal cyfarfodydd bob yn ail flwyddyn yn y dyfodol. Mae'n bwysig fod yr awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn gwneud defnydd llawn o'r materion a drafodir gan y grŵp.

11. Arolygiadau o'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol

11.1 Fe barheais gyda'm polisi o beidio ag arolygu unrhyw Ymddiriedolaeth GIC nac Awdurdod Iechyd Arbennig, ac yn unol â fy argymhelliad, mae pob Awdurdod Iechyd a sefydlwyd o dan adran 8 Deddf Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol 1977 bellach wedi eu dileu o Ran II Atodlen 1 RIPA. Yng Nghymru a Lloegr caiff pob gweithgaredd o'r fath bellach ei gweithredu gan y Gwasanaethau Gwrth-Dwyll a Sicrwydd ('CFSMS'), a gafodd eu harolygu gan y SCG yn Ebrill 2003 ac sydd i'w harolygu eto yn 2005.

12. Arolygiadau o gyrff cyhoeddus eraill

12.1 Mae'r SCG yn parhau i arolygu'r Post Brenhinol a'r Swyddfa Twyll Difrifol ('SFO'). Mae'r ddau gorff yn parhau i fod â'r staff hyfforddedig sydd ei angen ar gyfer ymarfer eu dyletswyddau statudol. Ond tra bo'r Post Brenhinol yn defnyddio'r pwerau ar gyfer amddiffyn yn erbyn trosedd ddifrifol ac wedi ei threfnu, mae'r SCG yn parhau i fod yn ddibynnol ar asiantaethau gorfodaeth cyfraith eraill i ymarfer y pwerau ar ei ran.

12.2 Rydw i'n poeni ynglŷn y ffaith i'r Gwasanaethau Tân yn ddiweddar gael eu cynnwys o fewn deddfwriaeth RIPA. Yn ystod y flwyddyn mae'r SCG wedi arolygu pedwar awdurdod o'r fath, ac arolygwyd mwy ers hynny. Mae'n amlwg eu bod yn cymryd eu dyletswyddau statudol o ddifrif ac maent wedi sefydlu systemau rheoli a hyfforddiant a ddylai allu ymdopi'n ddigonol gyda cheisiadau ac awdurdodiadau RIPA. Ond mae'r Gwasanaethau Tân eu hunain yn ansicr o ran pam y dylent orfod defnyddio goruchwyliaeth gudd. Mae rheolwyr o'r farn y dylai ataliad tân gael ei gyflawni'n agored. Os byddai trosedd yn cael ei chyflawni neu os byddent yn amau fod trosedd wedi ei chyflawni, byddent yn gofyn i swyddogion heddlu lleol ei hymchwilio. Mae'n ymddangos yn hollol ddiangen fod y Gwasanaethau Tân yn gorfod talu am gynnal systemau gweinyddu a hyfforddiant sy'n annhebygol o gael eu defnyddio. Ni allaf weld unrhyw reswm pam y dylent ddal fod dan reolaeth RIPA.

13. Blaenoriaethau arolygu

13.1 Yn ystod y flwyddyn arolygu nesaf byddaf unwaith eto yn cynnal cyfres o ymweliadau sydd wedi ei seilio ar egwyddorion yr amlinellais eisoes, gydag enwau'r rhai sydd i'w hymweld wedi eu cynnwys yn Ychwanegiad E o ran hwylustod. Mae awdurdodau unedol, metropolitan, Bwrdeistref Llundain, Albanaidd a Chymraeg i gael eu hadolygu bob yn ail flwyddyn, ac awdurdodau Cyngor a Dosbarth bob tair blynedd. Bydd perfformwyr hynod wael angen arolygiadau mwy aml, tra bydd y rhai sydd bob amser yn dda yn cael eu

harolygu'n llai aml. Lle bo modd, bydd arolygiadau gan Gomisiynwyr Cynorthwyol ag Arolygwyr yn digwydd bob yn ail. Byddaf yn ceisio amrywio cwmpas a hyd arolygiadau asiantaethau gorfodaeth cyfraith er mwyn cymryd perfformiad da i ystyriaeth.

14. Datblygiadau technolegol

14.1 Mae'r defnydd o offer technolegol yn cynyddu. Golyga hyn ei bod hi'n bwysicach fyth fod caffaeliad, lleoliad a defnydd yn cael eu harchwilio'n gywir. Mae'r Llawlyfr ACPO o'r enw 'Safonau Lleoliad ar gyfer Cefnogaeth Dechnegol mewn perthynas ag Ymladd Trosedd Cyfaint' ('Deployment Standards for Technical Support in Tackling Volume Crime') yn darparu arweiniad defnyddiol. Dylai ymgeiswyr am oruchwyliaeth esbonio'n glir pa offer technegol sydd ei angen, a dylent ddibynnu, lle bo hynny'n addas, ar adroddiadau posibilrwydd technegol. Rhaid i swyddogion awdurdodi ystyried addasrwydd yr offer arfaethedig wrth asesu cymesuroldeb ac angen. Ni ddylai'r defnydd a wneir o offer technegol ragori ar yr hyn a awdurdodir.

14.2 Os yw offer technegol yn cael ei ddefnyddio dramor, mae'n bwysig bod ystyriaeth fuan yn cael ei roi i anghenion deddfwriaethol y wlad fel bod cynnyrch yr offer yn dderbyniol fel tystiolaeth yn y Deyrnas Unedig.

14.3 Mae'r rhyngrwyd yn anodd ei fonitro. Er enghraifft, mae'n anodd nodi lleoliad union gweinyddwr, gwefan neu stafell sgwrsio sy'n destun cais neu awdurdodiad. Er y gwelliannau technegol o ran olrhain gweinyddwyr, mae anawsterau yn parhau.

14.4 Mae arolygiadau SCG yn dangos fod cynnydd strategol yn y defnydd o systemau CCTV gan awdurdodau cyhoeddus ar gyfer pwrpasau gorfodaeth a diogelwch. Rydw i'n parhau i'w cynghori fod yn rhaid i ddefnydd o'r fath, gan gynnwys camerâu symudol a statig, gael ei gefnogi gan weithdrefnau atebol ac archwiliadwy yn ymwneud â rheolaeth a defnydd y systemau. Mae protocolau rhwng awdurdodau lleol a'r heddlu yn cael eu datblygu ar

gyfer systemau o'r fath, a bydd angen awdurdodiadau goruchwyliaeth gyfeiriedig weithiau. Mae gallu soffistigedig rhai systemau CCTV yn golygu ei bod hi'n bwysig sicrhau nad yw goruchwyliaeth ymwthiol yn cymryd lle yn anfwriadol.

14.5 Ni nododd fy arolygwyr unrhyw ddefnydd o system adnabod rhifau ceir awtomatig ac adnabod gwyneb sy'n anghydnaws gyda'r ddeddfwriaeth.

15. Y flwyddyn i ddod

15.1 Fel cyfraniad tuag at arolygiadau yn y Deyrnas Unedig, mae asiantaethau gorfodaeth cyfraith yn cynnal mwy o weithgareddau cudd dramor. Nid yw rhai ohonynt yn cydymffurfio gyda'n deddfwriaeth, felly mae'n rhaid cadw llygad agos ar y gweithgareddau hyn.

15.2 Rydw i'n edrych ymlaen at gadw gweithgareddau cudd SOCA dan adolygiad, a disgwyliaf iddo fod yn gorff mwy hyfedr ac effeithiol na'i rannau unigol oherwydd byddant yn rhyngddibynnol ac yn cynorthwyo ei gilydd ynghyd â bod yn ganmoliaethus ac unedig.

15.3 Byddaf yn cymryd mantais o'r cyfle a gynigir imi i wneud sylwadau ar y prif adroddiad ac argymhellion yr adolygiad RIPA oherwydd ei bod hi'n bwysig, fel rhan o'r broses adolygu, bod rhan y SCG yn cael ei chydnabod yn llawn.

15.4 Er mwyn cymharu perfformiad awdurdodau cyhoeddus rydw i wedi dechrau cyflwyno system ar gyfer eu hasesu. Unwaith iddi fod yn effeithiol bydd hi o gymorth inni bennu cwmpas a hyd arolygiadau dilynol.

15.5 Rydym yn dal i barhau i aros am gyflwyniad Rhan III RIPA (sy'n ymwneud ag amgryptio).

Ychwanegiad A

AWDURDODIADAU A RODDWYD O DAN RAN III DEDDF YR HEDDLU 1997 (DIWYGIEDIG) YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF

	2002-2003			2003-2004			2004-2005		
	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm
Cyfanswm nifer y ar awdurdodiadau (heb gynnwys adnewyddiadau)	2,424	87	2,511	2,340	143	2,483	2,072	138	2,210

AWDURDODIADAU BLAENOROL

	2002-2003			2003-2004			2004-2005		
	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm
Nifer o achosion ag angen awdurdodiad*	281	18	299	269	21	290	232	17	249
Achosion angen awdurdodiad blaenorol yn ôl categori:									
Annedd	190	13	203	174	7	181	162	11	173
Swyddfa	38	2	40	29	10	39	33	5	38
Llofft gwesty	49	3	52	63	4	67	35	1	36
Materion dan reolaeth braint gyfreithiol	2	0	2	2	0	2	0	0	0
Deunydd newyddiadurol cyfrinachol	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Gwybodaeth bersonol gyfrinachol	2	0	2	1	0	1	2	0	2

Ychwanegiad B

DADANSODDIAD O'R AWDURDODIADAU YN ÔL TROSEDD A RODDWYD O DAN RAN III DEDDF YR HEDDLU 1997 (DIWYGIEDIG) YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF

	2002-2003			2003-2004			2004-2005		
	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm
Ymosodiad	10	0	10	7	3	10	9	2	11
Bwrgleriaeth/lladrad	96	3	99	110	1	111	96	0	96
Cynllwyn	47	0	47	35	0	35	10	0	12
Delio gyda chyffuriau	1325	70	1395	1275	116	1391	1157	105	1262
Troseddau drylliau (gan gynnwys lladrad arfog)	131	1	132	116	3	119	108	4	112
Herwgipio/cribddeiliaeth	46	0	46	20	1	21	34	0	34
Golchi arian	30	0	30	37	0	37	56	5	61
Llofruddiaeth/colli bywyd	168	3	171	170	2	172	164	8	172
Mewnfudiad anghyfreithiol wedi'i drefnu	17	0	17	29	0	29	47	0	47
Osgoi treth	130	0	130	116	0	116	48	0	47
Terfysgaeth	169	1	170	171	6	177	212	9	221
Arall*	110	5	115	79	10	89	121	5	126

*Dim ond y mathau mwyaf cyffredin o drosedd a restrir, gan gynnwys llwgrwobrwyaeth, llygredigaeth a chyhuddiadau rhywiol. O ganlyniad, efallai na fydd y cyfansymiau hyn yn adlewyrchu nifer yr awdurdodiadau a arwyddwyd.

Ychwanegiad C

AWDURDODIADAU A RODDWYD O DAN RAN II DEDDF RHEOLAETH PWERAU AROLYGIAETH 2000 A DEDDF RHEOLAETH PWERAU AROLYGIAETH (YR ALBAN) 2000 YN YSTOD Y TAIR BLYNEDD DDIWETHAF

	2002-2003			2003-2004			2004-2005		
	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm
Cyfanswm rhif yr awdurdodiadau (heb gynnwys adnewyddiadau)	461	14	475	437	10	447	434	27	461
Achosion yn ôl achos:									
Cerbyd preifat	173	3	176	126	0	126	171	10	181
Adeilad preswyl	288	11	299	311	10	321	263	17	280

Ychwanegiad D

	2002-2003			2003-2004			2004-2005		
	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm	Lloegr, Cymru & Gogledd Iwerddon	Alban	Cyfanswm
Ymosodiad	8	0	8	8	0	8	11	0	11
Bwrgleriaeth/lladrad	13	0	13	15	0	15	13	1	14
Cynllwyn	13	0	13	4	0	4	6	0	6
Delio gyda chyffuriau	175	10	185	162	8	170	156	13	169
Troseddau drylliau (gan gynnwys lladrad arfog)	39	0	39	18	1	19	17	0	17
Herwgipio/cribddeiliaeth	13	0	13	11	0	11	11	0	11
Golchi arian	6	0	6	4	0	4	2	0	2
Llofruddiaeth/colli bywyd	126	2	128	139	1	140	139	8	147
Mewnfudiad anghyfreithiol wedi'i drefnu	2	0	2	2	0	2	3	0	3
Osgoi treth	12	0	12	3	0	3	3	0	3
Terfysgaeth	25	0	25	22	0	22	15	3	18
Arall*	21	1	22	34	0	34	48	2	50

*Dim ond y troseddau mwyaf cyffredin sydd wedi eu rhestru, gan gynnwys llwgrwobrwyo a llygru a llygredigaeth a throseddau rhywiol. O ganlyniad efallai na fydd y cyfansymiau hyn yn adlewyrchu nifer yr awdurdodiadau a roddwyd.

Ychwanegiad E

Blaenoriaethau arolygu

I'w harolygu'n flynyddol

Heddluoedd Cymru a Lloegr
Asiantaeth Trosedd Ddifrifol Wedi Ei Threfnu
Heddluoedd ar gyfer yr Alban
Asiantaeth Gorfodaeth Cyffuriau Albanaidd
Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon
Lluoedd EM yng Ngogledd Iwerddon
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
Heddlu Niwclear Sifil (UK AEAC yn flaenorol)
Tollau Thramor a Chartref EM

Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau [i gynnwys yr Asiantaeth Ddiogelwch a Phensiynau, y Swyddfa Ymchwiliadau a Chyswllt a Gwasanaethau Archwiliad]
Asiantaeth yr Amgylchedd
Gwasanaeth Carchar EM
Y Post Brenhinol CCC
Gwasanaeth Mewnfudiad y DU

I'w harolygu bob yn ail flwyddyn

Heddlu ac Asiantaeth Warchod y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cangen Reoli'r Llynges Frenhinol
Heddlu Militaraidd Brenhinol
Heddlu'r Awyrlu Brenhinol

Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC)
Adran ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Gwasanaeth Gwrth Dwyll & Rheolaeth Diogelwch y GIC
Adran Fasnach a Diwydiant
Adran Drafnidiaeth
Awdurdodau Lleol - Unedol, Metropolitan, Bwrdeistrefi Llundain, Cynghorau Albanaidd a Chymraeg GIC yr Alban (Adran Gwasanaethau Cenedlaethol)

I'w harolygu yn gylchdroadol mor gyflym ac mae'r ddau gategori cyntaf yn caniatáu

Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch
Comisiynydd Gwybodaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaeth Carchar Gogledd Iwerddon
Swyddfa Cyfathrebiadau

Annex E

Swyddfa Masnachu Teg
Swyddfa Ombwdsman yr Heddlu ar gyfer Gogledd Iwerddon
Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr
Asiantaeth Taliadau Gwledig
Scottish Accountant in Bankruptcy
Asiantaeth Gwarchod yr Amgylchedd Albanaidd
Adran Weithredol yr Amgylchedd a Materion Gwledig Albanaidd
Gwasanaeth Carchar Albanaidd
Swyddfa Twyll Difrifol
Asiantaeth Gwasanaethau Cerbyd a Gweithredydd

I'w harolygu bob 3 mlynedd

Comisiwn Elusen
Adran Diogelwch Trafnidiaeth (TRANSEC)
Gwasanaethau Tân ac Achub
Awdurdodau Lleol – Cynghorau Sirol a Dosbarth

Blaenoriaeth arolwg i'w phenderfynu wedi i'r arolygiad cyntaf gael ei gyflawni

Asiantaeth Cynnal Plant
Asiantaeth Reoli Meddyginiaethau a Nwyddau Gofal Iechyd (MHRA)
Asiantaeth Safonau Bwyd
Bwrdd Hapchwarae Prydain Fawr
Byrddau Iechyd yng Nghymru
Prif Arolygydd Ysgolion yn Lloegr EM
Heddlu Porthladd Dover
Heddlu Porthladd Lerpwl

Ychwanegiad F

Gwariant SGC ar gyfer Ebrill 2004 – Mawrth 2005

Disgrifiad	Cyfanswm cost £
Costau staff a recriwtio	1,073,242
Teithio a chynhaliaeth	92,796
Hyfforddiant a datblygiad	4,088
Cynadleddau a chyfarfodydd	14,130
Technoleg gwybodaeth a thelathrebu	35,151
Llyfrau, papurach ac argraffu	19,120
Offer swyddfa	5,637
Tâl post a chostau negesydd	1,663
Costau llety	40,517
Cyfanswm	**1,286,344**

Ychwanegiad G

AELODAU' R SWYDDFA COMISIYNWYR GORUCHWYLIAETH – MAWRTH 2005



Aelodau o'r SCG a adawodd yn ystod y cyfnod adrodd:

Arglwydd Bonomy, Comisiynydd Goruchwyliaeth

Syr John MacDermott, Comisiynydd Goruchwyliaeth

Comisiynydd Tony Williams, Prif Arolygydd (ymadawedig)

Jean McMahon, Rheolwraig Swyddfa SCG

Colette Fleming, Rheolwraig Weinyddol

Argraffwyd yn y DU ar gyfer The Stationery Office Limited
ar ran Rheolwr Swyddfa Bapurach Ei Mawrhydi

ID 182039 11/05

Gyda diolch i'r Sgwad Drosedd Genedlaethol (Adran Gymorth Dechnegol) am gyflenwi lluniau ac i Brightside Partnership am gynorthwyo gyda dyluniad yr adroddiad.

Swyddfa Comisiynwyr
Goruchwyliaeth

PO Box 291105
Llundain SW1V 1ZU

Ffôn: 020 7828 3421
Ffacs: 020 7592 1788

www.surveillancecommissioners.gov.uk

Cyhoeddwyd gan TSO (The Stationery Office) ac ar gael gan:

Arlein:
www.tso.co.uk/bookshop

Llythyr, ffôn, ffacs ac e-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau 0870 600 5522
Archebion ffacs 0870 600 5533
Archebwch trwy gyfrwng y Llinell Frys Seneddol Lo-call 08457 023474
E-bost book.orders@tso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

Siopau TSO
123, Kingsway, Llundain WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manceinion M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belffast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 High Street, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/archebion cyffredinol 020 7219 3890
Archebion ffacs 020 7219 3866

Asiantaethau Achrededig TSO
(gweler yr Yellow Pages)

a thrwy lyfrwerthwyr da